# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2015** |
| Amser: | **09.05 – 10.30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/5b997115-3638-4725-831b-fc1bf4c92951?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-04-629 Adolygu a gorfodi Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog yn gofyn am ei hymateb i'r nifer o bwyntiau a godwyd gan y deisebydd, yn enwedig mewn perthynas ag ariannu, fel y gellir ail-gartrefu ceffylau yn hytrach na'u dinistrio, ac a allai'r trefniadau rheoli sy'n cael eu defnyddio yn y New Forest fod o gymorth yng Nghymru; ac
- anfon trawsgrifiad at y deisebydd o sesiwn craffu ar ôl deddfu Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Ddeddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 ar 12 Mawrth 2015.

### 2.2 P-04-635 James Bond yn y Cynulliad Cenedlaethol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgîl ymateb y Llywydd ei bod yn amhosibl gweithredu'r hyn y mae'r ddeiseb yn gofyn.

### 2.3 P-04-621 Cadw'r Uned Famolaeth dan Arweiniad Ymgynghorwyr yn Ysbyty Glan Clwyd ar Agor

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd, ond i aros tan ganlyniad yr achos cyfreithiol cyn penderfynu beth ymhellach allai wneud ynghylch y ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-546 Magu anifeiliaid dan amodau annaturiol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am ymateb oddi wrth y deisebydd, ond i gau'r ddeiseb os na cheir ymateb o fewn chwe wythnos.

### 3.2 P-04-605 Achub Ffordd Goedwig Cwmcarn Rhag Cael ei Chau am Gyfnod Amhenodol neu'n Barhaol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am ymateb oddi wrth y deisebydd, ond i gau'r ddeiseb os na cheir ymateb o fewn chwe wythnos.

### 3.3 P-04-579 Adfer cyllid ar gyfer monitro Gwylogod Ynys Sgomer

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am sylwadau'r deisebydd ar ohebiaeth y Gweinidog.

Datganodd Joyce Watson ei bod yn Aelod o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.

### 3.4P-04-422 Ffracio

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am sylwadau'r deisebydd ar ohebiaeth y Gweinidog.

### 3.5P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog yn gofyn am ei sylwadau ar y cyngor cyfreithiol mae'r Pwyllgor wedi'i gael; ac
- ar ohebiaeth y deisebwyr, sy'n gofyn yn benodol:
  - bod barn DEFFO yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r ymatebion eraill i'r ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 8 Mai;
  - bydd DEFFO yn cael eu cynnwys yng ngham nesaf yr ymgynghoriad; a
  - barn y Gweinidog ar honiad DEFFO bod anghenion y rhai sydd eisiau neu angen hyfforddiant IAP yn aml heb eu diwallu neu'n anhysbys, am fod IAP weithiau'n ddewis yn hytrach nag angen crys neu angen meddygol.
- dod â'r ddeiseb at sylw Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a gofyn i gynnwys DEFFO yn ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Bil arfaethedig ar anghenion addysgol arbennig; ac
- awgrymu wrth y deisebwyr efallai yr hoffent ymgysylltu â'r adolygiad y mae'r Athro Donaldson yn ei wneud ar hyn o bryd a hefyd efallai yr hoffent ddod â'r ddeiseb at sylw Aelodau'r Cynulliad am y gallent fod â diddordeb mewn cymryd y mater ymlaen fel Bil Aelod Preifat.

### 3.6P-04-548 Ailgyflwyno dosbarthiadau Cymraeg ym Mhrifysgol

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yn dilyn ymatebion yn nodi nad oes unrhyw ffynhonnell amlwg o gyllid a allai helpu.

### 3.7P-04-601 Gwaharddiad Arfaethedig ar Ddefnyddio e-sigaréts Mewn Mannau Cyhoeddus

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am sylwadau gan y deisebydd.

[Yn syth ar ôl y cyfarfod, daeth i'r amlwg bod y deisebydd wedi cyflwyno sylwadau pellach mewn perthynas â'r ddeiseb sawl diwrnod cyn y cyfarfod. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu hystyried gan yr Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 16 Mehefin.]

**3.8P-04-600 Deiseb i achub y gwasanaeth meddygon teulu**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan fod y materion sy'n cael eu codi yn y ddeiseb wedi cael sylw yn Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**3.9P-04-560 Gwasanaethau Clefyd Llid y Coluddyn yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb ar ôl i'r Gweinidog nodi nad yw o'r farn bod angen ystyried datblygu cynllun cyflawni cenedlaethol ar hyn o bryd.

**3.10 P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- barhau i gadw golwg ar y ddeiseb a gofyn i'r Gweinidog ymateb i sylwadau diweddar y deisebydd; a
- gofyn i'r Gweinidog am ragor o fanylion ynghylch sut bydd y £7 miliwn o gyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer CAMHS yn cefnogi gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n dioddef o anhwylderau bwyta.

**3.11 P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog**

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 3.13.

**3.12 P-04-466 Argyfwng Meddygol – Atal cyflwyno gwasanaeth iechyd o safon is yng ngogledd Cymru.**

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 3.13.

**3.13 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Man Anafiadau Ysbyty Tywyn**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Bwrdd Iechyd am:

  - ei sylwadau ar y sylwadau diweddaraf gan y deisebwyr; sut mae cyd-gadeiryddion annibynnol y corff newydd yn bwriadu cydweithio ar faterion
  - ei farn bod oriau agor uned mân anafiadau Tywyn yn ymddangos i fod yn anghyson ag amseroedd agor eraill yn yr ardal ac a yw hyn yn gwthio pobl tuag at wasanaethau mewn mannau eraill, fel adrannau damweiniau ac achosion brys neu wasanaethau meddygon teulu
  - nodyn o gyfarfod diweddar y grŵp cydweithredol Iechyd yn y Canolbarth

### 3.14 P-04-523 Diogelu'r Henoed a Phobl sy'n Agored i Niwed mewn Cartrefi Gofal

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Prif Weinidog roi gwybod i'r Pwyllgor pan fyddai cynnydd sylweddol newydd i adrodd arno.

### 3.15 P-04-501 Gwneud canolfannau dydd ar gyfer pobl hŷn yn ofyniad statudol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am ei farn ar y sefyllfa bresennol ledled Cymru a sut y mae'n rhagweld y bydd y Ddeddf a'r ail Fil Gwasanaethau Cymdeithasol yn effeithio ar y ddarpariaeth gofal dydd ar gyfer yr henoed.

### 3.16 P-04-587 Tîm Cymorth pwrpasol ar gyfer dioddefwyr Enseffalomyelitis Myalgig (ME), Syndrom Blinder Cronig a Ffibromyalgia yn ne-ddwyrain Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn gofyn am ei sylwadau ar y pryderon penodol y mae'r deisebydd yn cyfeirio atynt;
- sicrhau bod y deisebwyr yn ymwybodol o'r Grŵp Gweithredu Cyflyrau Niwrolegol Cymru Gyfan a'r gwaith mae'n ei wneud ar hyn o bryd; a
- chydymdeimlo â'r unigolyn a grybwyllir gan y deisebwyr yn eu gohebiaeth.

### 3.17 P-04-618 Diogelu gwasanaethau bancio mewn cymunedau hawdd eu targedu

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog basio sylwadau'r deisebydd ymlaen at y grŵp Strategaeth Cynhwysiant Ariannol.

### 3.18 P-04-519 Diddymu Taliadau Comisiwn wrth werthu Cartrefi mewn Parciau

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am sylwadau'r deisebydd ar ohebiaeth y Gweinidog.

### 3.19 P-04-613 Dylai Aelodau’r Cynulliad wrthod yr argymhelliad i gynyddu eu cyflogau 18%

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am ymateb oddi wrth y deisebydd ar yr ohebiaeth gan y Bwrdd Taliadau, ond i gau'r ddeiseb os na cheir ymateb o fewn chwe wythnos.

### 3.20 P-04-565 Adfywio hen reilffyrdd segur at ddibenion hamdden

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am sylwadau'r deisebydd ar yr ohebiaeth gan y Gweinidog a Sustrans.

### 3.21 P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn ei farn am bryderon y deisebydd; a
- gofyn i'r Gweinidog roi diweddariad pellach ar y cynnydd maes o law.

### 3.22 P-04-626 Israddio Ffordd yr A487 drwy Penparcau, Trefechan a chanol tref Aberystwyth

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn a oes amserlen gadarnach ar gyfer ystyried israddio statws cefnffordd yr A487 yn Aberystwyth.

### 3.23 P-04-607 Galw ar Lywodraeth Cymru i brynu Garth Celyn

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ddod â llythyr Ms Gibson at sylw'r Gweinidog i sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r sefyllfa; ac
- ysgrifennu datganiad cyhoeddus yn cefnogi buddiannau Garth Celyn.

Datganodd Bethan Jenkins AC fuddiant yn y ddeiseb.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Adroddiadau Drafft y Pwyllgor

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiadau drafft, yn amodol ar fân newidiadau.